

Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

Answers to Questions not reached in Plenary

10/03/2009

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Healthy Eating

Bwyta'n Iach

Q10 Helen Mary Jones: Will the First Minister make a statement on what the Welsh Assembly Government is doing to promote healthy eating in poorer communities? OAQ(3)1757(OAQ)

The First Minister (Rhodri Morgan): The Welsh Assembly Government has a range of policies and programmes to encourage healthy eating and reduce inequalities in health, including the provision of affordable fruit and vegetables through a national network of over 200 food co-operatives and community-based training on healthy eating and practical cookery skills.

Main Priorities

Prif Flaenoriaethau

Q11 Mick Bates: Will the First Minister make a statement on his main priorities for this year? OAQ(3)1763(FM)

The First Minister: There is no question that our top priority is to lead Wales out of recession and position ourselves for the recovery. Meanwhile, we shall press forward with our 'One Wales' commitments and delivery of the remaining items in the legislative programme.

Combating Recession

Brwydro yn erbyn Dirwasgiad

Q12 David Melding: Will the First Minister make a statement on his discussions with the Secretary of State for Wales on the role of the European Union in combating recession in Wales? OAQ(3)1771(FM)

The First Minister: We frequently discuss

C10 Helen Mary Jones: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i hyrwyddo bwyta'n iach mewn cymunedau tlotach? OAQ(3)1757(OAQ)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ystod o bolisiâu a rhagleni i annog bwyta'n iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd, gan gynnwys darparu ffrwythau a llysiau fforddiadwy drwy rwydwaith cenedlaethol o fwy na 200 o gwmniau bwyd cydweithredol, hyfforddiant yn y gymuned ar fwyta'n iach, a sgiliau coginio ymarferol.

C11 Mick Bates: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei brif flaenoriaethau ar gyfer eleni? OAQ(3)1763(FM)

Y Prif Weinidog: Nid oes dwywaith mai'n prif flaenoriaeth yw arwain Cymru allan o'r dirwasgiad ac ymbaratoi ar gyfer yr adferiad. Yn y cyfamser byddwn yn bwrw ymlaen â'r ymrwymiadau a wnaethom yn 'Cymru'n Un' ac yn cyflawni gweddill yr eitemau a nodir yn y rhaglen ddeddfwriaethol.

C12 David Melding: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei drafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru am swyddogaeth yr Undeb Ewropeaidd o ran brwydro yn erbyn y dirwasgiad yng Nghymru? OAQ(3)1771(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn trafod y mater

this matter during our regular meetings and the issue is, of course, covered at the economic summits that the Secretary of State attends on behalf of the UK Government. The European Commission economic recovery plan was a major discussion point at the Joint Ministerial Committee on Europe meeting that we attended yesterday.

Economic Upturn

Q13 Sandy Mewies: What steps is the Welsh Assembly Government taking to ensure that, once an economic upturn arrives, the whole of the Welsh workforce will have the skills to take advantage of it? OAQ(3)1765(FM)

The First Minister: We have launched a multi-media campaign that sets out the packages available to improve skills for both individuals and businesses. It aims to increase uptake of our innovative and existing support programmes, to both mitigate the effects of the global downturn and to prepare our workforce for the upturn.

Home Energy Efficiency

Q14 Angela Burns: What steps is the Welsh Assembly Government taking to promote home energy efficiency in Wales? OAQ(3)1774(FM)

The First Minister: The main Assembly Government vehicle used to improve energy efficiency in Welsh homes is the home energy efficiency scheme. To date, over 155,000 energy-efficiency measures have been introduced through this scheme. The Assembly Government is also working closely with the energy companies to maximise funding opportunities for energy efficiency.

Farepak

Q15 Chris Franks: What recent discussions has the First Minister had regarding Farepak? OAQ(3)1756(FM)

The First Minister: I have had no recent discussions about Farepak, which went into

hwn yn aml yn ystod ein cyfarfodydd rheolaidd ac mae'r mater, wrth gwrs, yn cael ei drafod yn yr uwchgyniadeddau economaidd mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn eu mynychu ar ran Llywodraeth y DU. Roedd cynllun adfer economaidd y Comisiwn Ewropeaidd ymhlið y prif bwyntiau a drafodwyd yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Ewrop yr oeddym yn bresennol ynddo ddoe.

Cynnydd Economaidd

C13 Sandy Mewies: Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i sicrhau, pan fydd cynnydd economaidd yn digwydd, y bydd holl weithlu Cymru yn meddu ar y sgiliau i fanteisio arno? OAQ(3)1765(FM)

Y Prif Weinidog: Yr ydym wedi lansio ymgyrch amlgyfrwng sy'n nodi'r holl becynnau sydd ar gael i wella sgiliau unigolion a busnesau. Ei nod yw cynyddu nifer y bobl sy'n dilyn ein rhaglenni cymorth arloesol a chyfredol, er mwyn lliniaru effeithiau'r dirywiad economaidd byd-eang a pharatoi ein gweithlu ar gyfer yr adferiad.

Effeithlonrwydd Ynni Cartref

C14 Angela Burns: Pa gamau mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni cartref yng Nghymru? OAQ(3)1774(FM)

Y Prif Weinidog: Y cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yw prif gyfrwng Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwella effeithlonrwydd ynni yng nghartrefi Cymru. Hyd yn hyn, mae dros 155,000 o fesurau effeithlonrwydd ynni wedi'u cyflwyno drwy'r cynllun hwn. Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn cydweithio'n agos â'r cwmnïau ynni er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i ariannu effeithlonrwydd ynni.

Farepak

C15 Chris Franks: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ynghylch Farepak? OAQ(3)1756(FM)

Y Prif Weinidog: Nid wyf wedi trafod Farepak yn ddiweddar. Diddymwyd y cwmni

liquidation in 2006. I very much encourage people to save safely and wisely with regulated providers such as credit unions.

yn 2006. Yr wyf yn annog pobl i gynilo'n ddiogel ac yn ddoeth drwy ddarparwyr rheoledig fel undebau credyd.